**ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU**

**19 Ebrill 2024**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru |
| AWDUR: | Dai Price, Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol |

## 1. Diben yr adroddiad

1.1. Diben yr adroddiad yw rhoi diweddariad ynghylch cynnydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yn enwedig:

- Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Creu gwefan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Data a gwybodaeth am y farchnad lafur
- Grwpiau clwstwr busnes
- Arweiniad ynghylch gyrfaoedd

## 2. Crynodeb gweithredol

2.1. Mae tîm y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi adolygu ei swyddogaethau drwy drafod â'r tîm presennol a thimau ehangach Tyfu Canolbarth Cymru, arweinwyr gwleidyddol, uwch-swyddogion a llawer o randdeiliaid a busnesau.

2.2. Yn ystod yr 8 mis diwethaf, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi nodi ei blaenoriaethau, wedi creu cynllun gwaith ac wedi gweithredu'r newidiadau a gymeradwywyd gan fyrddau'r Bartneriaeth a Tyfu Canolbarth Cymru.

2.3. Mae tîm y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi blaenoriaethu'r pwyntiau a nodir yn 1.1 er mwyn creu strwythur a llwyfan lle gall busnesau ymgysylltu a lle caiff gwybodaeth ei chreu er mwyn llywio newid.

2.4. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ynghylch cynnydd o ran y blaenoriaethau yn 1.1.

## 3. Cefndir

3.1. Nod Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yw dadansoddi'r ddarpariaeth o ran sgiliau a dylanwadu arni, a hynny ar sail angen economaidd rhanbarthol, er mwyn hybu twf a phrosiectau seilwaith allweddol ym mhob rhanbarth. Mae'r Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol yn adeiladu ar flaenoriaethau a

nodwyd gan Ardaloedd Menter, Bargeinion Dinesig, Dinas-ranbarthau a threfniadau cydweithio trawsffiniol, ac maent yn hybu'r blaenoriaethau hynny.

3.2. Caiff y cynlluniau eu diweddaru bob tair blynedd ac maent yn darparu argymhellion i Lywodraeth Cymru er mwyn dylanwadu ar y gwaith o flaenoriaethu a threfnu cyllid ar gyfer sgiliau, sy'n cynnwys dyraniadau ar gyfer prentisiaethau ac addysg bellach.

3.3. Yn eu rhanbarthau, mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ymwneud hefyd ag ymchwil sy'n parhau, gwybodaeth am y farchnad lafur, gwaith datblygu, a'r gwaith o gyflawni prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gan sicrhau bod rhanbarthau'n cyd-fynd yn strategol â cheisiadau am gyllid Ewropeaidd a gan weithio gyda chwmnïau angori a chwmnïau eraill sydd o bwys rhanbarthol.

3.4. Ceir 4 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar draws Cymru ar hyn o bryd.

## 4. Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru

4.1. Fel y disgrifir uchod wrth egluro'r cyd-destun cenedlaethol ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, i fod yn llwyddiannus rhaid i Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru sicrhau bod y sectorau sy'n flaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth yn cael eu cefnogi gan ddata cenedlaethol a ategir gan wybodaeth fusnes leol.

4.2. Drwy'r broses hon, byddwn yn gallu sianelu rôl y Bartneriaeth i sicrhau:

- Bod y Bartneriaeth yn pontio'r bwlch rhwng addysg, sgiliau ac adfywio er mwyn creu economi gref a bywiog a ategir gan arloesi, twf a gweithlu medrus.
- Bod y Bartneriaeth yn un sy'n gweithio gydag arweinwyr busnes a rhanddeiliaid i nodi anghenion o ran sgiliau ar draws y rhanbarth yn awr ac yn y dyfodol.

4.3. Er mwyn llwyddo, bydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn ceisio cyflawni pedwar canlyniad allweddol:

- Cynhyrchu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur er mwyn llywio blaenoriaethau yn awr ac yn y dyfodol.
- Adolygu'r ddarpariaeth ranbarthol o ran sgiliau.
- Dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch sgiliau, hyfforddiant ac addysg.
- Bod yn gorff strategol sy'n cynrychioli buddiannau rhanbarthol.

4.4. Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn rhan o raglen Tyfu Canolbarth Cymru ac mae'n cyd-fynd yn agos â'r gweithgarwch hwnnw. Felly, mae'r Bartneriaeth yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru.

## 5. Cynnydd

### Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

5.1. Cymeradwyodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru y bwriad i ailstrwythuro Bwrdd ac aelodaeth y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Tachwedd.

5.2. Gwnaeth tîm y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hysbysu holl aelodau presennol a newydd y Bwrdd am y penderfyniad yn ysgrifenedig, gan esbonio eu rôl newydd. Cafodd y sawl nad oes angen mwyach iddynt fod yn gynrychiolwyr eu hysbysu hefyd, a rhoddwyd rôl amgen iddynt yn strwythur y grwpiau clwstwr.

5.3. Cyfarfu'r Bwrdd newydd ar 29 Ionawr. Mae aelodaeth newydd y Bwrdd ynghlwm yn **Atodiad 1 y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol**.

5.4. Gan mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y Bwrdd newydd, gwnaethom ddefnyddio'r amser i gadarnhau o'r newydd aelodaeth a blaenoriaethau Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac i gyflwyno'r holl aelodau newydd.

Bu'r Bwrdd yn trafod y canlynol:

- Diweddariad ynghylch ailstrwythuro'r Bwrdd
- Cyflwyno Cadeiryddion y Grwpiau Clwstwr
- Trosolwg o wefan newydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Yr ymatebion i'r arolwg sgiliau – maent ynghlwm yn **Atodiad 2 y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol**
- Toriadau i brentisiaethau – llythyr ar y cyd gan bob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi'i anfon i Lywodraeth Cymru i fynegi ein pryderon – mae ynghlwm yn **Atodiad 3 y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol**

## 6. Creu gwefan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

6.1. I sicrhau bod gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn weladwy ac yn dryloyw, rydym wedi ymgysylltu â chwmni dylunio gwefannau ac mae gwefan y Bartneriaeth wrthi'n cael ei chreu. Mae datblygu'r wefan wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, a bydd y wefan ar gael o fis Ebrill 2024 ymlaen.

6.2. Bydd yr Arsyllfa Ddata, a fydd yn cyd-fynd â'r wefan, yn adnodd hygyrch ar gyfer pob math o wybodaeth ranbarthol am y farchnad lafur. Bydd yr adnodd ar gael ar-lein gyda'r wefan ym mis Ebrill 2024.

## 7. Data a gwybodaeth am y farchnad lafur

7.1. Rhan o rôl y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, fel y nodwyd mewn datganiadau cynharach, yw crynhoi a dadansoddi data a gwybodaeth am y farchnad lafur er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol.

7.2. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn bwriadu gwneud hynny drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n cynnwys tri cham:

1. Gwybodaeth am y farchnad lafur – Roedd yr adroddiad diwethaf yn nodi ein bod wedi cwblhau'r broses dendro ac wedi penodi contractwr i ddarparu ein data'n ymwneud â gwybodaeth am y farchnad lafur. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau yn ôl y disgwyl erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

   Mae arolwg cyflogaeth a sgiliau'r canolbarth wedi'i gwblhau ac mae'r ymatebion wedi'u crynhoi. Mae crynodeb o'r ymatebion ynghlwm yn **Atodiad 2 y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol**.

2. Bydd grwpiau clwstwr sectorau'r canolbarth yn adolygu'r holl ddata sydd wedi'i grynhoi, yn sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr ac yn darparu darlun arbenigol ar gyfer y sector dan sylw.

   Bydd y grwpiau clwstwr ym mis Ebrill yn dechrau adolygu'r ymatebion i'r arolwg a'r data sydd newydd ddod i law'n ymwneud â gwybodaeth am y farchnad lafur.

## 8. Grwpiau clwstwr busnes

8.1. Rydym wedi sefydlu 9 grŵp clwstwr busnes a 2 grŵp clwstwr cynorthwyol.

8.2. Maent yn cynnwys dros 120 o fusnesau o bob cwr o'r rhanbarth – Mae manylion am aelodau'r grwpiau clwstwr busnes ynghlwm yn **Atodiad 4 y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol**.

8.3. Erbyn hyn, mae gan 8 o'r 11 o grwpiau gynrychiolaeth o ran Cadeirydd.

8.4. Rydym yn dal i sefydlu'r grwpiau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cludiant a Logisteg, a'r Warant i Bobl Ifanc.


## 9. Arweiniad ynghylch gyrfaoedd

9.1. Mae tîm y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi blaenoriaethu darparu arweiniad ynghylch gyrfaoedd i bobl ifanc fel amcan. Nodwyd bod hynny'n flaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth.

9.2. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi dechrau casglu gwybodaeth gan bartneriaid a phobl ifanc drwy gyfrwng arolygon a fydd yn dangos ein darpariaeth ar hyn o bryd.

9.3. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi ymgysylltu â phorth arweiniad ynghylch gyrfaoedd o'r enw One Step North, sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi cynnwys timau addysg awdurdodau lleol Powys a Cheredigion, a'i bwriad yw sicrhau bod y porth rhyngweithiol hwn ynghylch gyrfaoedd ar gael i bob plentyn ysgol 11 – 18 oed ar draws y rhanbarth.

Pan fydd y strwythur yn gyflawn, bydd yn galluogi ysgolion a dysgwyr i gael mynediad bob dydd i bob cyfle o ran gyrfa, yn enwedig yn y canolbarth. Yna, gall ysgolion ddefnyddio grwpiau clwstwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i ymgysylltu ymhellach, a fydd yn cynnig gwybodaeth well i ddysgwyr am yrfaoedd.




9.4. I reoli'r model hwn yn llwyddiannus, bydd angen adnodd pwrpasol gan wasanaeth Gyrfa Cymru neu gan awdurdodau lleol/ysgolion, a fydd yn gweithio gyda grwpiau clwstwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Fodd bynnag, bydd y Bartneriaeth yn parhau i reoli'r grwpiau clwstwr yn barhaus. Nid yw'r adnodd hwn wedi'i sefydlu eto.

## 10. Goblygiadau cyfreithiol

10.1. Dim.

## 11. Goblygiadau o ran adnoddau dynol

11.1. Dim.

## 12. Goblygiadau ariannol

12.1. Dim.

## 13. Atodiadau

13.1. Atodiad 1 – Aelodaeth y Bwrdd

13.2. Atodiad 2 – Canlyniadau'r Arolwg

13.3. Atodiad 3 – Llythyr am Brentisiaethau

13.4. Atodiad 4 – Rhestrau Grwpiau Clwstwr ar gyfer Ceredigion/Powys